# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**DYDD** Iau, 19 Medi 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans and J.G. Prosser (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Yn bresennol fel sylwedydd:-**
Y Cynghorwr J. Prosser

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. S. Waters, Rheolwr Priffyrdd a Chludiant
C.T. Cleaton, Rheolwr Trwyddedu Strydoedd Gwaith a Peiriannydd Mabwysiadau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin. - 10.00 yb - 10.20 yb

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 6ED MEDI 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau cyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 6 Medi 2019 gan ei fod yn gofnod cywir.**

## 3. DEISEB - CYMDEITHAS PRESWYLWYR DWYRAIN MACHYNYS - MABWYSIADU A CHYNNAL A CHADW FFYRDD YR YSTÂD

Yn dilyn cofnod 8 o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019 cyflwynwyd deiseb gan Gymdeithas Preswylwyr Dwyrain Machynys i ofyn i'r Cyngor Sir fabwysiadu'r ffyrdd yn natblygiad Dwyrain Machynys yn Llanelli. Penderfynodd y Cyngor i gyfeirio'r cais at yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd i'w ystyried.

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y ddeiseb ynghyd ag adroddiad a oedd yn argymell peidio mabwysiadu ffyrdd yr ystad oherwydd y costau, y rhwymedigaethau yn y dyfodol a'r rhesymau cyfreithiol cysylltiedig.

Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i'r ddeiseb a'r pryderon a fynegwyd gan Gymdeithas Preswylwyr Dwyrain Machynys, roedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn bwriadu cymeradwyo argymhellion yr adroddiad i beidio mabwysiadu ffyrdd yr ystad ar y sail ganlynol:

- Cafwyd dealltwriaeth glir na fyddai ffyrdd yr ystad yn cael eu mabwysiadu ac y byddent yn aros mewn perchnogaeth breifat.
- Roedd gan y datblygwr drefniant masnachol gyda chwmni rheoli.
- Roedd yr eiddo wedi'i farchnata fel tai ar ffyrdd preifat.

- Roedd wedi'i gwneud yn glir i'r trawsgludwr nad oedd unrhyw bosibilrwydd o fabwysiadu'r briffordd yn y dyfodol am nad oedd Cytundeb Mabwysiadu Priffordd A38 ar waith.

**PENDERFYNWYD:**

**3.1 cymeradwyo'r argymhelliad i beidio â mabwysiadu ffordd yr ystad.**
**3.2 anfon llythyr at y deisebwr yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad.**

## 4. GWRTHWYNEBIADAU I ORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (CAERFYRDDIN) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 20) 2019

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a oedd yn manylu ar wrthwynebiadau i gynnig y Cyngor o ran gwneud Gorchymyn i ddiwygio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Amrywio Rhif 20). Diben y cynnig oedd diogelu defnyddwyr ffyrdd a hwyluso llif traffig diogel a dirwystr mewn amrywiol leoliadau yng Nghaerfyrddin fel y dangosir yn yr atodlen sydd ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd y cynigion yn ymwneud â'r ffyrdd canlynol:

- Heol Bronwydd, Caerfyrddin
- Heol Abergwili, Caerfyrddin
- Heol Pentrefelin, Caerfyrddin
- Y Gelli, Caerfyrddin

Rhoddwyd gwybod nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law i'r cynnig oddi wrth yr ymgyngoreion statudol, ond er hynny roedd pedwar gwrthwynebiad wedi dod i law oddi wrth y cyhoedd, fel y manylwyd yn yr adroddiad ynghyd ag ymatebion yr Adran iddynt.

**PENDERFYNWYD nodi'r gwrthwynebiadau oedd wedi dod i law i'r Gorchymyn arfaethedig i ddiwygio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Amrywio Rhif 20) ond bod y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau, fel y manylwyd yn yr adroddiad a bod y gwrthwynebwyr yn cael gwybod am hynny.**

_________________________________      ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL**      **DYDDIAD**